

---

# BWLETIN POLISI CYTÛN

## CYTÛN POLICY BULLETIN

### FEBRUARY 2014/ CHWEFROR 2014

---



## Comisiwn Williams

Mae'r Prif Weinidog Carwyn Jones wedi croesawu cyhoeddi adroddiad annibynnol ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae'r adroddiad wedi argymhell y dylai ad-drefnu mawr ddigwydd i lywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnwys uno awdurdodau unedol, a lleihau eu nifer o'r 22 presennol i tua dwsin.

Fe sefydlodd y Prif Weinidog gomisiwn, dan gadeiryddiaeth Syr Paul Williams, ym mis Ebrill 2013 er mwyn adolygu'n annibynnol holl agweddau ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, i weld sut maen nhw'n gweithio ar hyn o bryd a gweld sut y gellir eu gwella yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi treulio wyth mis yn casglu tystiolaeth er mwyn cynhyrchu adroddiad cadarn a gonest ar y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llywodraeth a'u darparu, a datblygu model optimaidd o lywodraeth a darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Fe ddywedodd y Prif Weinidog:

*"Hoffwn ddiolch i Syr Paul Williams ac aelodau'r Comisiwn am eu gwaith caled yn casglu'r dystiolaeth eang ar gyfer yr adroddiad hwn. Roedd hynny'n cynnwys casglu tystiolaeth oddi wrth y rheiny sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a'r rheiny sy'n eu defnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn trafod sawl agwedd hollbwysig, ar adeg pan fo'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu, a'r adnoddau sydd ar gael i'w darparu yn prinhau. Rwyf wedi bod yn glir o'r dechrau na allwn barhau i gynnal y drefn fel y mae. Mae pobl ar hyd a lled Cymru yn dibynnu'n helaeth ar y gwasanaethau hollbwysig y mae'r sector cyhoeddus yn eu darparu bob dydd. Mae'n anorfod ac yn hanfodol fod pethau yn newid, fel y gall ein gwasanaethau cyhoeddus ddod yn fwy effeithiol, yn fwy effeithlon, yn fwy hygyrch ac yn fwy ymatebol. Byddaf yn mynd ati'n awr i ystyried yr adroddiad yn fanwl, cyn ymateb iddo maes o law."*

Mae Llywodraeth Cymru, y pleidiau gwleidyddol a sefydliadau'r drydedd sector yn ystyried yr adroddiad hwn ar hyn o bryd ac yn cyfrannu at y drafodaeth.

## Cronfa gwerth £10 Miliwn i daclo tlodi

**Cafodd cronfa gyfalaf newydd, gwerth £10 miliwn, ei lansio er mwyn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n cyfrannu at wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ledled Cymru.**

Bydd grwpiau cymunedol a gwirfoddol, ynghyd â mentrau cymdeithasol yn gallu cynnig am grantiau cyfalaf o hyd at £500,000 er mwyn gwella cyfleusterau cymunedol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf anghenus yn eu hardaloedd lleol. Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n cynnig am grant brofi bod eu prosiect yn mynd i atal a lliniaru effeithiau tlodi.

Bydd modd cyflwyno cais hefyd ar gyfer cynlluniau a fydd yn ailgyflwyno gwasanaethau cymunedol, neu'n eu hatal rhag cael eu colli.

Nod y rhaglen newydd hon, sef y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, yw cynnig swm o £10 miliwn rhwng nawr a diwedd 2015.

*Bydd y rhaglen yn agor i dderbyn cynigion ar 3 Chwefror, ac mae mwy o wybodaeth i'w chael [yma](#).*

## **Deddfwriaethau sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd**

### **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)**

Bil y Llywodraeth, a gyflwynwyd gan Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Gwybodaeth am y Bil

Bydd y Bil yn diwygio ac integreiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol i bobl ac yn darparu ar gyfer:

- Gwella'r deilliannau lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr sydd angen cymorth;
- Cydweithrediad a phartneriaeth awdurdodau cyhoeddus gyda'r bwriad o wella lles pobl;
- Cwynion a chynrychiolaethau mewn perthynas â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol;
- Swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd wrth i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol; a dibenion cysylltiedig.

Mae'r Bil yng Nghyfnod 3 ar hyn o bryd. Ceir esboniad o beth sy'n digwydd ym mhob cyfnod [yma](#).

Bil Llywodraeth, a gyflwynwyd gan Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

### **Bil Addysg (Cymru)**

Mae'r Bil Addysg (Cymru) yn ceisio deddfu yn y meysydd canlynol:

Cyngor Gweithlu Addysg, gan gynnwys cofrestru a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu ehangach;

Diwygio dull o gofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig;

asesiad ôl-16 o anghenion addysgol a hyfforddiant ac addysg bellach arbenigol;

dyddiadau tymhorau ysgol;

penodi Prif Arolygwr EM ac Arolygwyr EM dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru o dan Adran 19 o Ddeddf Addysg 2005.

Mae'r Bil yng Nghyfnod 3 ar hyn o bryd.

Bil Llywodraeth, a gyflwynwyd gan Alun Davies AC, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Bil Brys yw Bil Llywodraeth y mae angen ei wneud yn Ddeddf yn gynt nag y mae proses ddeddfu pedwar cyfnod arferol y Cynulliad yn ei ganiatáu. Ni ddarperir diffiniad o Fil Brys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") nac yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 26.95 yn datgan:

*"Os yw'n ymddangos i aelod o'r Llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil Llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys Llywodraeth."*

Fel yn achos pob Bil Cynulliad, rhaid i Ffiliau Brys ymwneud ag un neu fwy o'r 20 Maes a gynhwysir yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006 er mwyn iddyn nhw fod o fewn cwmpas pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

## **Bil Sector Amaethyddol (Cymru)**

Bil Llywodraeth, a gyflwynwyd gan Alun Davies AC, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Bil Brys yw Bil Llywodraeth y mae angen ei wneud yn Ddeddf yn gynt nag y mae proses ddeddfu pedwar cyfnod arferol y Cynulliad yn ei ganiatáu. Ni ddarperir diffiniad o Fil Brys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") nac yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 26.95 yn datgan:

*"Os yw'n ymddangos i aelod o'r Llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil Llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys Llywodraeth."*

Fel yn achos pob Bil Cynulliad, rhaid i Ffiliau Brys ymwneud ag un neu fwy o'r 20 Maes a gynhwysir yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006 er mwyn iddyn nhw fod o fewn cwmpas pwerau deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n:

Cadw'r mesurau amddiffyn statudol presennol;

Rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion yn y dyfodol i bennu amodau a thelerau amaethyddol;

Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru i gynnal swyddogaethau tebyg i'r rhai sydd gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ond wedi'u haddasu fwy;

Galluogi Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru i gynnal swyddogaethau sy'n ymwneud â gweithrediad y sector amaethyddol, gan gynnwys hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch pennu isafswm amodau a thelerau; a

Helpu i sefydlu sector amaethyddol cryf a chynaliadwy yng Nghymru sydd â gweithlu wedi ei hyfforddi'n dda;

Hybu ymdrechion i wella sgiliau yn y sector amaethyddol.

Bil Llywodraeth, a gyflwynwyd gan Carl Sargeant, Gweinidog Tai ac Adfywio. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

## **Bil Tai (Cymru)**

Prif ddibenion y Bil yw:

Cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat ynghyd ag asiantau gosod a rheoli;

Diwygio'r gyfraith ar ddigartrefedd, gan gynnwys rhoi rhagor o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a'u caniatáu i ddefnyddio llety addas o fewn y sector preifat;

Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle y nodwyd bod angen safleoedd o'r fath.

Cyflwyno safonau ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch rhenti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety;

Diwygio system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai;

Rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol godi tâl sy'n 50% yn uwch na chyfradd arferol y dreth gyngor ar adeiladau sydd wedi bod yn wag ers dros flwyddyn; a

Hwyluso'r ddarpariaeth o dai gan Gymdeithasau Tai Cydweithredol.

Mae'r Bil yng Nghyfnod 1 ar hyn o bryd.

**GERAINT HOPKINS**

**SWYDDOG POLISI**

**CYTŪN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU**

**029 2046 4378**

[geraint@cytun.org.uk](mailto:geraint@cytun.org.uk)